# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL
# AMODAU AR GYFER DEFNYDDIO BANDSTAND ABERYSTWYTH

1. (1) Bydd yr ardal i'w defnyddio yn cael ei diffinio gan Swyddog y Cyngor sydd wedi'i awdurdodi'n briodol.

   (2) Rhaid cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Swyddog y Cyngor sydd wedi'i awdurdodi'n briodol.

   (3) Bydd eich sefydliad yn sicrhau, ar ei gost ei hun, os oes angen, fod yr ardal a ganiateir yn cael ei hynysu i foddhad y Cyngor.

   (4) **Nid oes caniatâd i werthu bwyd na lluniaeth wedi'i gynnwys yn y drwydded hon.**

2. Os oes angen unrhyw newidiadau ynghylch oriau defnyddio'r bandstand, yna rhaid anfon hysbysiad ysgrifenedig ymlaen at Adran yr Ystadau dim hwyrach na 7 diwrnod cyn dyddiad cyntaf eich archeb. Ni chaniateir newidiadau i amseroedd os oes llai na 7 diwrnod ar ôl cyn meddiannu.

3. **Hysbysiad canslo:**

   a) **30 diwrnod neu ragor o hysbysiad - ad-daliad llawn wedi tynnu'r ffi weinyddol o £26.00**
   b) **Rhwng 30 a 14 diwrnod - ad-daliad o hanner y ffi wedi tynnu'r ffi weinyddol o £26.00**
   c) **Llai na 14 diwrnod – Dim ad-daliad.**

4. **Telir yr holl symiau sydd i'w talu 14 diwrnod ar ôl dyddiad yr anfoneb.**

5. O ran y defnydd o'r Promenâd, bydd eich sefydliad yn hysbysu'r Heddlu a'r Frigâd Dân o'ch bwriad i gynnal y digwyddiad, a chydymffurfir ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ganddynt.

6. Dylid hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig cyn y digwyddiad am enwau a chyfeiriadau'r bobl hynny sy'n trefnu goruchwylio'r digwyddiad. Dylai'r trefnydd drefnu i berson cymwys fynychu'r bandstand ar yr amser y cytunwyd arno ar gyfer cynefino a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am y fangre. Efallai y gwna unrhyw ymweliadau ofer arwain at gostau ychwanegol.

7. Os bydd unrhyw ddifrod yn cael ei achosi i'r eiddo neu unrhyw beth arno, gan gynnwys offer a pheiriannau neu unrhyw eitem sy'n cael ei chyflenwi gan y Cyngor, bydd eich sefydliad ar unwaith, ar ei draul ei hun, yn gwneud iawn am yr holl ddifrod neu golled o'r fath ac os bydd yn methu â gwneud hynny, mae eich sefydliad yn awdurdodi'r Cyngor yn ddiwrthdro i wneud iawn am y difrod neu'r golled honno ac yn indemnio'r Cyngor rhag yr holl gostau, taliadau a threuliau priodol mewn perthynas â hynny.

8. Dylid trefnu polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol o o leiaf £5m mewn perthynas â'r digwyddiad a chyflwyno copi ohono i'r Cyngor cyn y digwyddiad.

COPY

9. Bydd eich sefydliad yn indemnio'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw hawliad a wneir am unrhyw golled neu ddifrod neu anaf i eiddo neu bobl sy'n digwydd yn ystod y digwyddiad.

10. Bydd trefnydd y digwyddiad yn darparu nifer priodol o gynorthwywyr a stiwardiaid ar gyfer goruchwylio'r digwyddiad yn effeithlon ac ar gyfer diogelwch a chadw trefn.

11. Bydd unrhyw offer y gall y sefydliad ei ddwyn i'r eiddo yn cael ei ddwyn ar ei fenter ei hun ac ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw ddifrod neu anaf i'r offer hwnnw a achosir gan esgeulustod trefnwyr y digwyddiad neu gan weithredoedd neu ddiffygion unrhyw drydydd partïon. Rhaid bod gan unrhyw offer trydanol dystysgrif PAT ddilys a chyfredol.

12. Ni chaiff eich sefydliad wneud, caniatáu na goddef i unrhyw weithred neu beth gael ei wneud ar yr eiddo dan sylw a allai fod neu ddod yn niwsans neu achosi difrod neu fod yn annifyrrwch neu'n aflonyddwch i'r Cyngor neu berchennog neu feddiannydd unrhyw eiddo cyfagos.

13. Pan fo'n briodol, cymerir rhagofalon digonol i atal olew/hylif rhag gollwng trwy ddefnyddio dysglau o dan bob cerbyd.

14. **Ni chaniateir i unrhyw gerbydau modur, boed yn gysylltiedig â'r digwyddiad neu fel arall, barcio ar y promenâd.**

15. Rhaid cymryd rhagofalon digonol i sicrhau nad yw'r digwyddiad yn peryglu pobl eraill sy'n defnyddio'r eiddo.

16. Argymhellir bod Bocs Cymorth Cyntaf priodol yn cael ei gymryd i'r safle a bod person yn bresennol, sy'n gymwys, i roi Cymorth Cyntaf.

17. Argymhellir y dylai'r rheini sy'n gyfrifol sicrhau eu bod mewn sefyllfa i alw'r gwasanaethau brys os oes angen.

18. Rhaid cael gwared ar yr holl sbwriel, gweddillion ac ati o'r safleoedd ar ôl y digwyddiad, a rhaid gadael y safleoedd yn y cyflwr y cawsant eu canfod. Mae'r eiddo i'w adael mewn cyflwr glân a thaclus ac mae'r holl sbwriel (gan gynnwys gwydr) sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad ac y gellir ei briodoli i'r digwyddiad i'w glirio yn syth ar ôl y digwyddiad. Efallai y codir tâl am gael gwared ar unrhyw sbwriel neu am lanhau lle gadewir y bandstand mewn cyflwr yr ystyrir bod angen gwaith glanhau ychwanegol arno heblaw am yr hyn a ystyrir yn dderbyniol ar gyfer defnydd arferol.

19. Cedwir ffordd drwodd 3m **drwy'r amser** i aelodau'r cyhoedd basio ar hyd y promenâd.

20. Os yw'r trefnwyr yn trefnu Casgliad Elusennol yn ystod y digwyddiad, bydd angen iddynt gael caniatâd gan yr Adran Drwyddedu ar gyfer trwydded gasglu.

21. Mae trefnydd(ion) y digwyddiad yn gyfrifol am gydymffurfiaeth â Diogelwch Tân o fewn y bandstand am gyfnod cyfan y digwyddiad.

22. Ni chaniateir ysmygu o fewn y bandstand ar unrhyw adeg.

COPY

23. Ni chaniateir dod ag alcohol na'i yfed ar y promenâd na'r bandstand.

24. Y ffigur uchaf ar gyfer meddiannu'r Bandstand yw 100 o bobl, gan gynnwys y mynychwyr a'r perfformwyr, a rhaid peidio â mynd y tu hwnt iddo ar unrhyw adeg

25. Er bod Wifi ar gael yn yr eiddo, nad yw ei ddarparu yn anghenraid ar gyfer meddiannu, nid oes dim iawndal yn daladwy os nad yw Wifi ar gael ar y dyddiad(au) meddiannu.

26. Ystyriwch a oes angen unrhyw fesurau atal neu reoli heintiau fel mwy o awyru, golchi dwylo, atgoffa cyfranogwyr i beidio â mynychu os oes ganddynt symptomau unrhyw salwch heintus ac os oes cyfundrefnau glanhau addas ar waith.

27. **Ni fydd trefnydd(ion) y digwyddiad yn gadael y bandstand heb neb i ofalu amdano ar unrhyw adeg. Mae'n rhaid i drefnwyr gynnal presenoldeb ar y safle nes bod aelod o Dîm y Cyfleusterau wedi cyrraedd i sicrhau'r fangre.**

28. **Os gadewir y bandstand neu'r promenâd mewn cyflwr lle mae angen glanhau, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn am ad-daliad gan ddeiliad y drwydded o ganlyniad. Bydd isafswm tâl o £100 yn daladwy.**

COPY